Adroddiad ar

Cylch Ysgol Feithrin Llanrwst

Ysgol Bro Gwydir
Heol Watlin
Llanrwst
LL26 0EY

Dyddiad yr arolygiad:  Ionawr 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Ysgol Feithrin Llanrwst

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Ysgol Feithrin Llanrwst |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Carol Salmond a Bethan Jones |
| Person â gofal | Carol Salmond |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Ystod oedran y plant | Rhwng 2 ½ - 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 15 o blant tair-blwydd oed a 10 o blant pedair-blwydd oed. |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 13 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Iau: 9:00yb - 11:30yb: sesiwn plant yn cael ei arianu i dderbyn addysg yn y tymor sy'n dilyn ei penblwydd yn dair oed. 11:45yb - 12:15yp: amser cinio plant Meithrin Mwy. 12:15yp - 2:45yp: sesiwn plant Meithrin Mwy. |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma'r arolygiad cyntaf ers ail-gofrestru gyda Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). |

| | |
|---|---|
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 07/05/2019 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 20/01/2026 |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Hysbyswyd y darparwr nad yw'r lleoliad yn cydymffurfio gyda'r Rheoliadau, ni chyflwynwyd hysbysiad, ond mae'r rhain yn cael eu hadnabod fel meysydd i'w gwella, a dylai'r UC roddi sylw iddynt.

Bydd gwybodaeth am bob diffyg cydymffurfiaeth wedi' gynnwys yn yr Adroddiad Gryno ar Weithredu a Gwella, fydd yn cael ei anfon ar wahân i'r adroddiad gan AGC.

## Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu medrau digidol.

A2 Sicrhau bod pob ymarferydd yn cael cyfle i drafod ac adolygu gweithdrefnau diogelu yn ystod goruchwyliaeth ac arfarniad ffurfiol.

A3 Mynd i'r afael â'r diffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae’r rhan fwyaf o blant yn cyfathrebu’n hyderus drwy siarad a mynegi eu hunain yn effeithiol. Maent yn trafod eu gweithgareddau dyddiol yn frwdfrydig gydag ymarferwyr a’u ffrindiau. Mae'r rhan fwyaf o blant yn archwilio'r ardaloedd chwarae tu fewn a thu allan yn llawn diddordeb ac maent yn cael hwyl yn dilyn eu diddordebau eu hunain. Maent yn mwynhau amser tawel yn yr ardal gyfforddus yn darllen llyfrau.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn hapus, yn teimlo’n ddiogel ac yn ymgartrefu’n dda. Maent yn gyfarwydd â'r drefn dyddiol ac yn setlo'n gyflym wrth gael eu cyfarch mewn ffordd gyfeillgar gan yr ymarferwyr. Maent yn barod iawn i ofyn i’r ymarferwyr am gymorth neu am gysur, pan fo’r angen yn codi. Mae’r rhan fwyaf o blant yn teimlo'n gyfforddus yng nghwmni’r ymarferwyr ac yn mwynhau ymuno yn y canu a gwrando ar storïau.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â’u ffrindiau a gyda’r ymarferwyr ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn mwynhau cymdeithasu ag eraill, er enghraifft, wrth chwarae gem fwrdd maent yn mwynhau cael sgwrs gyda’u ffrindiau, ac o ganlyniad, maent yn datblygu agweddau da tuag at ei gilydd. Maent yn dysgu rhannu a chymryd eu tro yn dda. Mae’r plant yn rhannu'r rhawiau yn yr hambwrdd tywod a disgwyl eu tro i gael reid o amgylch yr iard yn y trelar. Maent yn cydweithio'n dda i dacluso eu teganau a dangos caredigrwydd wrth ofalu am eu doliau bach a'u hanifeiliaid tegan.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn weithgar ac yn mynegi mwynhad yn eu chwarae a'u dysgu wrth ymchwilio yn eu hamgylchedd yn ddiogel. Mae ganddynt lais effeithiol i ddewis a datblygu eu syniadau’n bwrpasol. Maent yn gwneud y rhan fwyaf o bethau drostynt eu hunain, gydag anogaeth gadarnhaol yr ymarferwyr. Maent yn dewis gweithgareddau a phrofiadau dysgu a chwarae yn hyderus. Maent wrth eu bodd yn archwilio a trochi eu dwylo yn yr hambwrdd ciwbiau iâ, i edrych am anifeiliaid yr Arctig. Yn ogystal, maent yn datblygu eu medrau creadigol wrth greu lluniau gydag amrywiaeth o ddeunyddiau celf a chrefft.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn ymateb yn dda i gyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd, mae'r helpwr heddiw yn tacluso'r platiau a'r cwpanau ac yn ail-gylchu'r gwastraff bwyd. Fodd bynnag, mae cyfleoedd pellach i ddatblygu annibyniaeth yn cael eu colli wrth i ymarferwyr weini bwyd i blant. Mae’r rhan fwyaf o blant yn canolbwyntio'n dda am gyfnodau estynedig wrth iddynt ymgymryd ag ystod o weithgareddau a phrofiadau dysgu. Er enghraifft, maent yn canolbwyntio wrth drefnu'r cwpanau copr mewn rhes a gwrando ar y synau canu maen nhw'n eu wneud.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae bron pob plentyn yn gwneud cynnydd priodol o'u man cychwyn unigol. Mae eu medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol yn datblygu'n gyson dros amser. Maent yn datblygu eu medrau'n effeithiol i fod yn unigolion sy'n dangos parch at ei gilydd ac oedolion.

Mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn gadarnhaol i weithgareddau a chyfleodd i chwarae, ac yn dangos awydd i gymryd rhan mewn profiadau newydd. Maent yn gwrando ac yn canolbwyntio'n effeithiol, yn enwedig wrth wrando ar straeon ac yn cymryd rhan mewn sgyrsiau byr yn eu hiaith gyntaf. Mae'r mwyafrif yn arddangos dealltwriaeth dda ac yn dilyn cyfarwyddiadau syml drwy'r Gymraeg yn gynyddol hyderus.

Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau llyfrau, gan eu trin yn ofalus ac edrych arnynt yn annibynnol. Maent yn trafod cymeriadau'n naturiol, megis trafod lle maent yn cuddio neu beth sy'n digwydd nesaf yn y stori. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio offer marcio yn hyderus i greu patrymau, lluniau ac i archwilio eu sgiliau ysgrifennu cynnar. Er enghraifft, maent yn defnyddio pensiliau lliw i greu lluniau teulu ac addurno eu gwaith.

Mae medrau rhifedd llawer o'r plant yn datblygu'n briodol. Maent yn cyfrif gwrthrychau i ddeg yn gynyddol hyderus, megis cyfrif blociau neu nifer y gwrthrychau sydd ganddynt mewn gweithgaredd. Mae eu dealltwriaeth o gymharu maint gwrthrychau yn datblygu yn briodol, gan allu adnabod beth sydd yn fwy neu'n llai. Mae tua hanner yn dechrau defnyddio iaith fathemategol berthnasol i drafod arian wrth chware siop.

Mae sgiliau corfforol bron pob plentyn yn datblygu'n dda. Maent yn symud o amgylch yr ardal awyr agored yn hyderus, gan gerdded dros rhwystrau, dringo offer a thrin peli mewn amrywiaeth o ffyrdd. Maent yn defnyddio siswrn, brwshys a theclynnau bychain eraill gyda rheolaeth gynyddol.

Mae bron pob un o'r plant yn cydweithio'n effeithiol ac yn dyfalbarhau wrth geisio datrys problemau. Er enghraifft, maent yn gweithio gyda'i gilydd i ganfod ffordd i wneud tŵr o focsys cardfwrdd sefyll yn gadarn. Mae creadigrwydd y plant yn amlwg, gyda llawer yn dewis gwahanol gyfryngau i fynegi eu syniadau. Maent yn paentio, yn defnyddio creonau ac yn torri patrymau syml gan ddangos sgiliau celfyddydol cadarn.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn ymateb i'w ceisiadau yn amserol. Maent yn meithrin perthynas hyfryd â'r plant ac yn canmol eu hymdrechion yn gyson, gan ddathlu eu llwyddiannau'n frwdfrydig. Maent yn rhyngweithio â'r plant â thynerwch ac yn creu awyrgylch cartrefol a gofalgar.

Mae’r ymarferwyr yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau o ran hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a chadw'r plant yn ddiogel. Maent yn rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith yn dda. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn hybu’r plant i fod yn weithgar ac i chwarae allan yn yr awyr iach yn aml. Maent yn atgoffa’r plant i olchi eu dwylo ac mae hyn yn eu helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i gymdeithasu yn ystod amseroedd bwyd ac yn eu hannog i fwyta'n iach gan sicrhau bod dŵr yfed ffres a llefrith ar gael yn hwylus. Mae’r mwyafrif o’r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol sy'n addas i oedran y plant. Maent yn cynnal ymarferion tân yn gyson. Mae'r ymarferwyr yn cofnodi presenoldeb yr ymarferwyr a’r plant yn unol ar canllawiau. Maent yn nodi damweiniau a digwyddiadau ac yn sicrhau bod y rhieni yn llofnodi'r cofnod er mwyn dangos eu bod wedi eu hysbysu. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o'r gweithdrefnau diogelu. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cymorth sensitif a ymatebol i bob plentyn. Maent yn rhoi strategaethau effeithiol ar waith i sicrhau bod y plant yn setlo a bod eu profiadau chwarae a dysgu yn gadarnhaol. Maent yn ymateb i anghenion unigol y plant yn dda gan sicrhau amgylchedd gynhwysol.

Mae’r ymarferwyr yn cydweithio'n dda i adeiladu hyder y plant, gan ymateb i i’w dewisiadau a threfnu phrofiadau diddorol. Mae’r ymarferwyr yn olrhain cynnydd plant yn briodol ac yn defnyddio’r arsylwadau hyn i greu gweithgareddau chwarae a dysgu ystyrlon. Maent yn cynllunio’n bwrpasol ar gyfer y camau nesaf yn eu datblygiad, ac yn adolygu cynnydd yn rheolaidd. Mae'r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithiadau'n effeithiol ac yn dilyn trefniadau cadarn i ddiwallu anghenion plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn sensitif.

Mae’r ymarferwyr yn croesawu ymwelwyr i’r lleoliad er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu’r plant. Maent yn dechrau ymweld â sefydliadau yn y pentref, fel y parc, llyfrgell a’r eglwys, i godi ymwybyddiaeth y plant o’u cynefin. Yn ogystal maent yn cymryd rhan yn yr Eisteddfod leol ac ymweld â'r farchnad ffermwyr i brynu llysiau i wneud cawl. Mae’r ymarferwyr yn arddangos lluniau o'r plant yn dathlu gwyliau a mwynhau amrywiaeth o weithgareddau celf a chrefft.

### Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae’r ymarferwyr yn meithrin perthnasoedd cynnes, cadarnhaol ac iach gyda’r plant, gan greu amgylchedd ble mae pawb yn teimlo’n ddiogel. Maent yn modelu sgiliau cymdeithasol pwysig megis gwrando, rhannu a dangos empathi. O ganlyniad, mae’r plant yn dysgu i ryngweithio’n barchus â’i gilydd ac yn datblygu hyder wrth gymryd rhan mewn chwarae cydweithredol.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio arsylwadau o gynnydd y plant, er mwyn cynllunio profiadau heriol, sy'n rhoi ystyriaeth lawn i'w ddiddordebau. Er enghraifft, maent yn cynllunio gweithgareddau synhwyraidd yn yr ardd, chwarae rôl yn gegin, a darparu cyfleodd ymarferol sy'n annog creadigrwydd a dychymyg.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad creadigol a chorfforol yn gryf. Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i'r plant archwilio deunyddiau celf cyfoethog, megis paent, defnyddiau naturiol. Mae'r gweithgareddau hyn yn annog mynegiant personol ac yn helpu plant i ddatblygu dychymyg bywiog. Yn ogystal, mae amser awyr agored wedi'i gynllunio'n bwrpasol i hyrwyddo medrau corfforol. Mae plant yn rhedeg, dringo, cydbwyso ac yn defnyddio offer corfforol mewn ffyrdd sy'n heriol ond diogel. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn annog y plant i roi cynnig ar heriau newydd, fel creu a theithio ar hyd llwybrau cydbwyso, sy'n adeiladu eu gwydnwch a'u hyder corfforol. Mae'r holl ymarferwyr yn modelu Cymraeg llafar yn effeithiol gan gyflwyno patrymau, ymadroddion, a chanu bywiog.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau rhifedd y plant. Er enghraifft, maent yn defnyddio toes i adnabod y berthynas rhwng rhifau a siapau penodol. Mae cyfleodd buddiol i'r plant chwarae gyda offer digidol syml fel til yn y siop. Fodd bynnag, nid ydyw'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau cynnar digidol y plant wedi ei ddatblygu'n llawn.

Yn yr arfer orau mae ymarferwyr yn annog y plant i ddatrys problemau ac i feddwl yn annibynnol. Er enghraifft, pan fydd plant yn adeiladu strwythurau maent yn gofyn cwestiynau ynglŷn a sut mae gwneud strwythur yn fwy sefydlog. Mae hyn yn annog y plant i feddwl yn ddyfnach am eu syniadau ac i feddwl am atebion eu hunain. Mae'r dull hwn yn dechrau meithrin chwilfrydedd naturiol ac yn cryfhau sgiliau meddwl rhesymegol y plant.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol a moesol y plant yn briodol. Maent yn dathlu amrywiaeth trwy astudio bwydydd gwledydd a gwyliau arbennig, fel y flwyddyn newydd Tsieineaidd. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd i'r plant ddysgu am eu hardal leol. Maent yn defnyddio ymweliadau byr, sgyrsiau, arteffactau lleol a lluniau i gyflwyno'r plant i'w cymuned. Mae hyn yn helpu'r plant ddeall ble maent yn byw, pwy sy'n rhan o'r gymuned, a beth sy'n unigryw i'w hamgylchedd. Mae'r plant yn ymateb yn frwdfrydig i'r profiadau hyn ac yn dechrau datblygu synnwyr cadarn o berthyn.

## Yr amgylchedd: Da

Mae'r arweinwyr yn gweithio'n ddiwyd i greu amgylchedd ddeniadol a diddorol i ddatblygu medrau'r plant yn fwriadus. Maent yn sicrhau ardaloedd dysgu a chwarae diogel. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cyfoethogi lles, gwybodaeth a dealltwriaeth y plant ac yn cynnig cyfleoedd buddiol iddynt ddysgu tu mewn a thu allan.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod mesurau diogelwch effeithiol ar waith i reoli mynediad i mewn ac allan o’r lleoliad. Mae drysau wedi'u cloi ac mae cofnod o ymwelwyr yn cael eu cadw. Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn cynnal gwiriadau iechyd a diogelwch dyddiol cyn i blant gyrraedd. Maent yn cwblhau asesiadau risg yn effeithiol ac maent yn amlinellu’r camau i’w cymryd i leihau ac atal risgiau i blant. Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod y lleoliad yn cael ei lanhau'n rheolaidd ac maent yn dilyn canllawiau cyfredol ar gyfer rheoli heintiau.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod yr ardaloedd dysgu a chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth y plant yn effeithiol. Mae hyn yn galluogi’r plant i symud o gwmpas yn hyderus, gan wneud dewisiadau doeth a dilyn eu diddordebau yn synhwyrol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn goruchwylio plant yn dda trwy gydol eu profiadau chwarae a dysgu. Mae’r arweinwyr wedi creu ardal addas i blant storio eu heitemau personol, sy’n creu ymdeimlad o berthyn. Mae gan blant fynediad at ystod eang ac amrywiol o deganau, adnoddau a dodrefn o feintiau priodol. Mae hyn yn cynnwys dewisiadau diddorol o adnoddau naturiol i feithrin medrau’r plant yn llwyddiannus. Mae’r teganau a’r adnoddau wedi eu gosod yn bwrpasol ac o fewn cyrraedd y plant, sy’n caniatáu iddynt wneud penderfyniadau a dewisiadau effeithiol am yr hyn y maent eisiau eu ddefnyddio. Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod gwaith celf y plant yn cael ei arddangos yn ddeniadol ac mae hyn yn creu ymdeimlad o falchder. Mae amrywiaeth dda o lyfrau ar gael, ac maent yn cael eu harddangos yn addas, gan annog y plant i'w darllen.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ardal chwarae tu allan yn drefnus ac yn cynnwys amrywiaeth o offer, adnoddau a chyfarpar i feithrin sgiliau corfforol, creadigol a dychmygol y plant. Mae’r arweinwyr wedi defnyddio arian grantiau yn dda i adeiladu a datblygu ardal ardd hyfryd i sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i ddysgu am y byd naturiol, chwarae yn y gegin fwd a phrofi celf a chrefft yn y ‘Cwt Clyd’. Maent wedi trefnu ardaloedd iddynt blannu a thyfu blodau i feithrin eu sgiliau garddio. Mae’r arweinwyr yn gwneud yn siŵr bod y plant yn cael mynediad i'r amgylchedd chwarae awyr agored ym mhob tywydd.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da

Mae arweinwyr yn rheoli'r lleoliad yn dda. Maent yn creu awyrgylch cadarnhaol o waith tîm ac mae ymarferwyr yn cefnogi ei gilydd yn effeithiol. O ganlyniad mae ethos cartrefol, hapus a chroesawgar yn bodoli.

Mae arweinwyr yn datblygu gweledigaeth glir ac uchelgeisiol sy’n rhoi lles a datblygiad y plentyn wrth wraidd y ddarpariaeth. Maent yn meithrin diwylliant lle mae gwaith tîm yn gryf, ac mae’r holl ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a’u gwerthfawrogi. Mae ymarferwyr yn cydweithio’n effeithiol ac yn rhannu ymrwymiad i gynnal gofal a dysgu o ansawdd da. Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel ac yn sicrhau bod pob plentyn,

ymarferydd a theulu yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen i gyrraedd eu potensial. Mae arweinwyr wedi paratoi datganiad o ddiben clir, yn rhoi darlun cywir sy'n hysbysu teuluoedd am yr hyn sydd gan y lleoliad i'w gynnig. Mae ystod o bolisïau a gweithdrefnau defnyddiol, y mae ymarferwyr yn eu dilyn yn effeithiol.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn defnyddio dull effeithiol o hunanwerthuso, gan ganolbwyntio ar gryfderau a meysydd i'w datblygu. Mae arsylwadau rheolaidd yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol  am ansawdd addysgu, y defnydd o'r amgylchedd a datblygiad creadigrwydd a hyder y plant. Cyflwynir gwelliannau rheolaidd sy'n cyfoethogi profiadau'r plant ac yn gwella arferion bob dydd. Mae arweinwyr yn targedu cyllid, gan gynnwys grantiau penodol tuag at  flaenoriaethau'r strategol y lleoliad, gan gynorthwyo i ddarparu adnoddau megis offer chwarae awyr agored ac adnoddau synhwyraidd. Mae cyfarfodydd cyson yn sicrhau bod y tîm yn trafod cynnydd, yn edrych ar flaenoriaethau ac yn cydnabod llwyddiannau.

Maent yn gweithredu prosesau recriwtio cadarn a gweithdrefnau clir i sicrhau amgylchedd ddiogel. Mae'r arweinwyr wedi gwirio addasrwydd bob ymarferydd sy'n sicrhau eu bod yn gymwys ac yn meddu profiad perthnasol o weithio gyda phlant ifanc ac mae eu rolau a chyfrifoldebau yn glir. Mae trefniadau sefydlu clir ar waith ar gyfer ymarferwyr newydd, gyda chyfleoedd hyfforddiant gorfodol ac opsiynol sy'n adlewyrchu anghenion y tîm a'r plant. Cynhelir sesiynau goruchwylio ac arfarnu rheolaidd i gefnogi datblygiad proffesiynol ac i annog rhannu arfer briodol. Fodd bynnag, nid yw'r trafodaethau bob amser yn cynnwys cyfle i drafod materion diogelu yn gyson.

Mae arweinwyr yn cefnogi ymarferwyr i ymateb i anghenion unigol plant. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr wedi sicrhau eu bod yn casglu yr holl wybodaeth sydd eu hangen arnynt i ddiwallu anghenion plant unigol.

Mae'r arweinwyr yn gweithredu prosesau pontio effeithiol i baratoi plant ar gyfer y cam nesaf yn eu dysgu. Mae'r plant yn cael cyfleoedd gwerthfawr i adeiladu hyder  drwy ymweld â'u hamgylchedd newydd. Mae'r arweinwyr wedi datblygu partneriaethau cryf gyda rhieni, yr awdurdod lleol, grwpiau cymunedol ac asiantaethau allanol, gan gyfoethogi profiadau'r plant.

Mae rhieni yn derbyn croeso wrth ymweld â'r lleoliad ac yn gwerthfawrogi'r cyfathrebu rheolaidd am gynnydd eu plentyn, boed hynny drwy sgyrsiau dyddiol neu lwyfannau digidol. Mae teuluoedd yn siarad yn gadarnhaol am y berthynas agos-atoch sydd rhwng ymarferwyr a phlant ac am y gofal a gynigir i bob plentyn.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/03/2026